



Prosiect Porfa Cymru

Adroddiad diwedd y flwyddyn 2022

-
*Wedi ei baratoi gan James Daniel a Sarah Morgan,
Precision Grazing Ltd - 22-11-2022*



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813

1.0 Cyflwyniad	4
2.0 Dull	4
2.1 Mesur y Borfa	5
2.1.1 <i>Techneg Mesur</i>	5
2.1.2 <i>Amllder y Mesuriadau</i>	5
2.2 Cofnodi Gorchudd	5
2.3 Canlyniadau	5
3.0 Ffermwyr Arbenigol	6
3.1 Safbwyntiau Ffermwyr y Prosiect	6
3.1.1 <i>Andrew Rees – Ffermwr Ilaeth – Sir Benfro</i>	6
3.1.2 <i>Richard Rees – Ffermwr biff a defaid – Powys</i>	7
3.1.3 <i>Peter Storrow – Ffermwr biff a defaid – Sir Benfro</i>	8
3.1.4 <i>Dafydd Evans – Ffermwr Ilaeth – Sir Ddinbych</i>	8
4.0 Adolygiad Twf Porfa 2022	10
4.1 Diffyg Porthiant Posibl	10
4.2 Cromlin Dwf Porfa	11
4.3 Cromlinau Twf Porfa Rhanbarthol	12
4.4 Cyfanswm Cynhyrchiant Porfa	16
4.5 Ansawdd y Borfa	16

1.0 CYFLWYNIAD

Mae Prosiect Porfa Cymru'n darparu gwybodaeth reolaidd ynglŷn â chyfraddau twf ac ansawdd porfa ar lefel ranbarthol i alluogi ffermwyr da byw i wneud penderfyniadau deallus a rhagweithiol yn ymwneud a rheoli'r borfa. Mae'r prosiect yn cynnwys 23 fferm laeth a 26 fferm biff a/neu ddefaid sy'n mesur eu porfeydd ac yn darparu adborth am dueddiadau twf.

Gyda glawiad dibynadwy Cymru, y borfa yw ein "mantais fasnachol" yn y farchnad leol a byd-eang ar gyfer llaeth a chig coch. Dyma'r ffynhonnell fwyaf cynaliadwy o borthiant ar gyfer ein da byw ac, o'i rheoli'n dda, dyma'r ffynhonnell fwyaf proffidiol o lawer.

Nodau'r prosiect hwn yw:

- Annog aelodau Rhagori ar Bori i fesur eu porfa yn gyson
- Cofnodi cyfraddau twf porfeydd rhanbarthol a'u rhannu gyda holl aelodau Cyswllt Ffermio
- Deall effaith y tywydd ar gynhyrchu porfa
- Deall effaith rheoli ar gynhyrchu porfa
- Cynorthwyo, rhannu a datblygu adnoddau ar gyfer gwneud penderfyniadau'n ymwneud â rheoli pori



2.1 MESUR Y BORFA

Defnyddiodd pob ffermwr fesurydd plât codi a oedd yn cael ei raddnodi ac yn cynnwys plât plastig er mwyn sicrhau cysondeb.

Defnyddiwyd hafaliad safonol y diwydiant yn y DU ar gyfer deunydd sych, sef:

$$\text{Gorchudd (kgDM/ha)} = 125x + 640$$

(x = uchder tir pori cywasgedig mewn 0.5cm)



2.1.1 TECHNEG MESUR

- Mesurwyd pob cae neu badog trwy osod y mesurydd o leiaf 30 gwaith ar bellter cyfartal ar draws y cae mewn siâp "W" neu ar letrows.
- Dilynodd y ffermwr yr un llwybr ar gyfer pob mesuriad.

2.1.2 AMLDER Y MESURIADAU


- Bu ffermwyr llaeth yn mesur eu llwyfan bori bob wythnos.
- Bu ffermwyr biff a/neu ddefaid yn mesur o leiaf 20 hectar (ha) fesul pythefnos.

2.0 DULL

Cafodd y dull ei lunio i ddarparu canlyniadau rheolaidd, dibynadwy a pherthnasol ar gyfer pob rhanbarth:

- Rhannwyd Cymru yn wyth rhanbarth i ddarparu cynrychiolaeth gytbwys o'r math o bridd a'r dosbarth tir.
- Dewiswyd o leiaf ddau ffermwr llaeth a thri ffermwr biff a/neu ddefaid o bob rhanbarth, gan gynrychioli'r mentrau da byw a'r mathau o dir pori nodweddiadol.

Mae'r map yn dangos y gwahanol ranbarthau o fewn y prosiect, gyda phob fferm fonitro wedi'i marcio ym mhob rhanbarth.



Ffigwr 1 – Rhanbarthau a ffermydd Prosiect Porfa Cymru

2.2 COFNODI GORCHUDD



- Bu'r ffermwyr yn cofnodi eu mesuriadau gorchudd glaswellt ar feddalwedd rheoli porfa Agrinet. Yna, buont yn cofnodi unrhyw achosion o bori neu silwair.
- Cofnodwyd nifer, pwysau a galw (am borfa) y da byw a oedd yn pori'r ardal.
- Cofnodwyd unrhyw dail neu wrtaith nitrogen a wasgarwyd.

2.3 CANLYNIADAU

- Cafodd y mesuriadau porfa eu lawrlwytho bob wythnos a'u gwirio i sicrhau cywirdeb, gan ddileu unrhyw anghysondebau.
- Yna, cyfrifwyd cyfartaledd ar gyfer pob rhanbarth ac ar gyfer y wlad, wedi'u rhannu'n ffermydd biff a/neu ddefaid a ffermydd llaeth.
- Rhoddwyd y wybodaeth ar fap a darparwyd nodiadau rheoli gan ymgynghorwyr pori ynghyd â ffermwyr profiadol o fewn y grŵp.
- Cafodd graddfeydd twf a nodiadau rheoli eu rhannu ar wefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol Cyswllt Ffermio.



3.0 FFERMWYR ARBENIGOL

Fel rhan o'r prosiect, mae pedwar rheolwr porfa arbenigol wedi bod yn rhoi cipolwg o'u systemau a'u prosesau gwneud penderfyniadau amserol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Gallwch ddod o hyd i ddiweddariadau ac amrywiaeth o ddeunyddiau o bodlediadau i fideos byr gan y ffermwyr arbenigol ar wefan Cyswllt Ffermio.



Richard Rees
Ffermwr
biff a defaid
Powys



Andrew Rees
Ffermwr llaeth
Sir Benfro



Peter Storrow
Ffermwr
biff a defaid
Sir Benfro



Dafydd Evans
Ffermwr llaeth
Sir Ddinbych

3.1 SAFBWyNTIAU FFERMWYR Y PROSIECT

3.1.1 ANDREW REES – FFERMWR LLAETH – SIR BENFRO

Sut mae tymor tyfu 2022 wedi bod mewn cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol?

Heriol iawn! Cychwynnodd yn dda gan fod gennym orchudd da o borfa o'r gaeaf diwethaf. Roedd twf y borfa ar ei anterth yn niwedd Mai/dechrau Mehefin. O ganol Mehefin ymlaen, fe wnaeth y tyfiant ddod i stop i bob pwrpas nes daeth y glaw o'r diwedd yn niwedd Awst.

Roeddem yn cael trafferth i gael digon o borfa ar ôl yn yr hydref ac felly mae'n rhaid i'r gwartheg erbyn hyn fynd i mewn yn ystod y nos. Rydym wedi defnyddio llai o wrtaith nitrogen yn ôl y bwriad, tua 50kgN/ha, yn bennaf trwy'r peiriant 'Tow and Fert' fel gwrtaith ar y dail. Rydym wedi tyfu tua 8tDM/ha eleni, sydd yn sylweddol is na'r 10-12tDM/ha mewn blynyddoedd blaenorol.

Pa welliannau ydych chi wedi eu gwneud yn y tymor pori hwn sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar eich system?

Gadawyd y fuches laeth heb ei newid i raddau helaeth, ond fe wnaethom newidiadau i'r stoc ifanc a'u pori trwy geisio gwthio porthiant o'u blaenau ar glychdro 45-60 diwrnod. Fe wnaethom roi'r heffrod R2 i bori byrnau am ychydig wythnosau yn ystod y gwres gwaethaf i gadw'r borfa i'n heffrod R1. Roedd y fuches laeth ar glychdro 45 diwrnod. Fe wnaethom lenwi'r bwch yn y porthiant gyda phorfa ychwanegol yn hytrach na'u llenwi ar ormod o ddwysfwyd i sicrhau ein bod yn gofalu am iechyd coluddion ein buchod.

Sut mae mesur porfa wedi bod o gymorth i chi wrth wneud penderfyniadau?

Ar rai wythnosau, roeddem yn teimlo nad oedd fawr o bwynt mesur pan oedd tyfiant y borfa yn ddim i bob pwrpas, ond cyn gynted ag y daeth y glaw, fe welsom gynydd mawr yn nhyfiant y borfa, felly, roedd mesur yn bwysig amser hynny i'n galluogi i dorri yn ôl ar borthiant ategol cyn gynted â phosibl.

Sut fydddech chi'n argymhell i ffermwyr sy'n newydd i fesur porfa i fynd ati ar y dechrau?

Ewch ati, byddwch yn glir am y diben a pham eich bod yn ei wneud. Os nad ydych yn teimlo'n hyderus, peidiwch â bod ofn gofyn i ffermwyr eraill sut a pham eu bod wedi gwneud rhywbeth a dysgu ganddynt.

Beth ydych chi'n ei wneud ar ddiwedd y flwyddyn ar ôl i chi fesur am y tymor pori cyfan?

Rydym yn ceisio adnabod tueddiadau o ran y defnydd o nitrogen a'r glawiad ar dwf y glaswellt i weld a oes rhai padogau yn llusgo tu ôl i'r lleill dan yr un drefn reoli a heriau amgylcheddol. Roedd eleni'n waeth na 2018 o ran tyfiant glaswellt a'r potensial am straen, ond roeddem wedi dysgu llawer ers hynny ac yn gallu gweithredu strategaethau rheoli yn gyflym i'w wneud mor ddistraen â phosibl.

3.1.2 RICHARD REES – FFERMWR BÍFF A DEFAID – POWYS

Sut mae tymor tyfu 2022 wedi bod mewn cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol?

I mi, nid yw wedi bod yn rhy ddrwg. Yr her i ni oedd cadw ansawdd y borfa, ond yn gyffredinol, mae wedi bod yn iawn. Mae cael cromlin twf gwastad ar gyfer y rhan fwyaf o'r tymor, os rhywbeth, wedi bod yn haws ei reoli. Roedd twf y llynedd ar tua 8t ac ar hyn o bryd, cyn belled, rydym ar 6t gan ddisgwyl cyrraedd 7t erbyn diwedd y tymor pori.

Dim ond dau fag o nitrogen ar gyfer y swêj wnaethom ni eu defnyddio eleni mewn cymhariaeth â 10t i 12t o nitrogen ar draws y fferm gyfan fel arfer. Wnaethom ni ddim rhoi bwyd ychwanegol i'r wŷn ac fe wnaethom leihau'r porthi ar y mamogiaid yn y gwanwyn, 3t mewn cymhariaeth â 10t. Rwy'n amcangyfrif y byddwn yn tyfu cyfartaledd o 7tDM/ha eleni.

Pa welliannau ydych chi wedi eu gwneud yn y tymor pori hwn sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar eich system?

Eleni, fe wnaethom gynyddu'r gweddillion pori i helpu gyda'r sychder i tua 2,000kgDM/ha yn hytrach na 1,500kgDM/ha. Credaf bod hyn wedi helpu i gadw lleithder ond roedd peidio â bod ag unrhyw wartheg ar y fferm yn gwneud cadw ansawdd y borfa yn anodd.

Sut mae mesur porfa wedi bod o gymorth i chi wrth wneud penderfyniadau?

Yn dilyn fy mhenderfyniad i gynyddu'r gweddillion, roeddwn yn gallu pennu a oedd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar dyfiant y glaswellt ac roedd yn rhoi hyder i mi yn fy mhenderfyniadau. Roedd gallu gwneud penderfyniadau rheoli rhagweithiol yn hytrach na rhai ymatebol yn fantais i helpu wrth ymdrin â'r sychder.

Sut fydddech chi'n argymhell i ffermwyr sy'n newydd i fesur porfa fynd ati ar y dechrau?

Cadwch bethau'n syml, cynlluniwch eich llwybr ymlaen llaw er mwyn ei wneud mor effeithlon â phosibl. Roeddwn yn sicrhau fy mod yn rhoi amser i gerdded y fferm bob wythnos. Gallai hyn fod yn amser gwych i'r teulu hefyd, felly roedd yn amser gwerth chweil. Roeddwn i'n defnyddio mesurydd plât oedd yn rhoi canlyniadau cyson a'i wneud yn effeithlon.

Beth ydych chi'n ei wneud ar ddiwedd y flwyddyn ar ôl i chi fesur am y tymor pori cyfan?

Byddwn yn edrych yn ôl a chymharu â chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol a dechrau cynllunio ein cylchdro cyntaf ar gyfer y gwanwyn. Rydym yn ceisio osgoi ail-hadu pan fydd yn bosibl, ond os byddwn yn teimlo bod padog yn tanberfformio, byddwn yn ymchwilio pam bod hynny yn wir yn gyntaf ac yn cynllunio o'r fan honno ar y camau gweithredu gorau.

3.1.3 PETER STORROW – FFERMWR BÍFF A DEFAID – SIR BENFRO

Sut mae tymor tyfu 2022 wedi bod mewn cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol?

Erchyll! Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gallu gwthio ein cyfradd stocio i fyny o ddfri, cynyddu'r ardal tir â'r lleihau faint o silwair yr ydym yn ei wneud. Ond, roedd eleni yn hollol wahanol. Fel arfer, byddem yn cael 3-4 wythnos o dyfiant araf, ond roedd hyn yn ddiwedd. Mae ein caeau mwyaf cynhyrchiol wedi cynhyrchu 6.5tDM/ha, byddai eraill i lawr i 3.5-4tDM/ha, fe fyddwn yn hoffi gweld y ffigwr hwnnw yn nes at 10-11tDM/ha ar gyfer ein fferm ni.

Pa welliannau ydych chi wedi eu gwneud yn y tymor pori hwn sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar eich system?

Mae symud mwy tuag at wndwn llysiuol a thorri i lawr ar rygwel yn y gymysgedd yn ein helpu ni yma. Mae arnom angen gwndwn sy'n gwreiddio'n ddwfn oherwydd bod y pridd yn gymharol fas. Mae 50 erw wedi eu hau â gwndwn llysiuol yn awr ac maen nhw'n edrych yn wych wrth fynd tua'r gaeaf. Mae buddsoddi yn ein isadeiledd pori hefyd yn talu ar ei ganfed wrth adael i ni fyrhau'r pori mewn pryd i symud mewn diwrnod os bydd angen, gan roi'r potensial i ni dyfu mwy o laswellt, gan olygu ein bod wedi lleihau ein defnydd o wrtaith nitrogen o 134kgN/ha i 48kgN/ha.

Sut mae mesur porfa wedi bod o gymorth i chi wrth wneud penderfyniadau?

Mae wedi cael gwared ar lawer o'r gwaith dyfalu wrth reoli ac wedi rhoi system o roi rhybudd cynnar pan fyddwn yn nesu at sychder. O ganlyniad, eleni fe wnaethom ddiwyfno 22 o loeau'n gynnar (3.5 mis oed) i fanteisio ar brisiau da ar hen wartheg a lleihau ein gofynion porthiant yn gyflym. Hefyd, yn nes ymlaen yn y flwyddyn, fe wnaethom ddiwyfno unrhyw fuchod â lloeau heffer yn 5.5 mis oed, y cyfan mewn ymgais i leihau'r galw ymhellach. Trwy fesur hefyd cawsom y gallu i gynllunio ein cyllideb borthiant at yr hydref a'r gaeaf ac, o ganlyniad, penderfynwyd pori cnwd gorchudd gaeaf ym mis Awst i helpu i gynyddu'r glaswellt at yr hydref.

Sut fydddech chi'n argymhell i ffermwyr sy'n newydd i fesur porfa fynd ati ar y dechrau?

Rhowch gynnig arni, bydd yr amser y byddwch yn ei dreulio yn ei wneud yn rhoi hyder i chi am allu eich glaswellt i gadw'r stoc sydd gennych. Bydd yn rhoi llawer mwy o eglurder i chi, y gallu i gynllunio ac, ar y cyfan, yn arbed arian i chi.

Beth ydych chi'n ei wneud ar ddiwedd y flwyddyn ar ôl i chi fesur am y tymor pori cyfan?

Fel arfer, fe fyddem yn defnyddio'r data hwn yn gynnar i benderfynu pryd i stopio pori er mwyn rhoi cyfnod gorffwys o 120 diwrnod, yn barod ar gyfer y gwanwyn dilynol. Rydym hefyd yn chwilio am gaeau sy'n tanberfformio ac fel arfer yn pori byrnau gyda'r gwartheg gyda'r nod o naill ai ail-hadu yn y gwanwyn yn wndwn porfa newydd neu gnwd tir â'r.

Fel arfer, byddwn yn tyfu eithaf tipyn o datws yma ac yn rhedeg system fwy dwys gyda'r gwartheg. Ond mae eleni wedi gwneud i mi benderfynu bod angen i ni edrych ar leihau'r ardal hon a lleihau ein costau cynhyrchu ar gyfer y gwartheg trwy symud i gadw cymaint o wartheg ag sy'n bosibl allan, gyda golwg ar gadw popeth allan dros y gaeaf yn y dyfodol.

3.1.4 DAFYDD EVANS – FFERMWR LLAETH – SIR DDINBYCH

Sut mae tymor tyfu 2022 wedi bod mewn cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol?

Fe wnaethom gychwyn y gwanwyn gyda gorchudd mwy nag arfer oherwydd y gaeaf mwy a gawsom llynedd. Roedd hyn yn gadael i ni gael y gwartheg allan yn gynnar a stopio porthi silwair yn fuan. Trwy gydol Mai a dechrau Mehefin, fe gawsom dyfiant da a chyson, oedd yn bodloni'r galw o 70kgDM/ha/dydd yn dda heb unrhyw broblemau gwirioneddol. O ganol Mehefin trwy'r haf, fe wnaeth y fferm sychu'n gyflym iawn oedd yn golygu ein bod wedyn yn gorfod rhoi bwyd ategol i'r gwartheg gyda 10kgFW/hd/diwrnod o silwair i gadw'r buchod yn llawn, yn ogystal â phori rhywfaint o'n padogau silwair ail a thrydydd gnwd. Roedd y tywydd sych yn waeth eleni ond, i ni, roedd hyd yn oed yn fwy o siawns gan ein bod yn cynnal digwyddiad mawr cenedlaethol ar y fferm, oedd yn golygu bod 25% o'n bloc pori wedi ei ddyrannu i hynny.

Pa welliannau ydych chi wedi eu gwneud yn y tymor pori hwn sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar eich system?

Eleni, rydym wedi canolbwyntio ar wella rhywfaint o'n isadeiledd pori i helpu wrth reoli a lleihau'r gwaith. Fe wnaethom ganolbwyntio ar gael pŵer trydan prif gyflenwad cyson i fwy o'n padogau i arbed cludo gwefrwyr solar o gwmpas y fferm sy'n sicrhau bod ein buchod yn cadw yn y darnau yr ydym yn eu rhoi iddyn nhw. Fe wnaethom hefyd ganolbwyntio ar wneud defnydd gwell o'n stoc slyri trwy ei roi gyda chwistrellwr esgid lusgo, sydd wedi bod yn fanteisiol.

Sut mae mesur porfa wedi bod o gymorth i chi wrth wneud penderfyniadau?

Peth pwysig i ni yw gallu stopio porthi silwair cyn gynted â phosibl yn y gwanwyn. Mae mesur yn rhoi hyder i ni i dorri hyn allan o'r diet yn gynharach nag y byddem wrth ddibynnu ar reddf naturiol. Mae hefyd yn ein helpu i gadw ansawdd y llwyfan pori trwy ddangos os oes gennym ychydig dros ben i'w dynnu allan fel nad yw padogau'n mynd allan o reolaeth.

Sut fydddech chi'n argymhell i ffermwyr sy'n newydd i fesur porfa fynd ati ar y dechrau?

Mae Agrinet yn help mawr i unrhyw un sy'n dechrau mesur porfa. Mae'n rhoi llwyfan i chi fonitro twf a'r galw yn hawdd ac mae hefyd o help os oes arnoch angen cyngor ar sut i reoli'r borfa, trwy adael i ymgynghorwyr neu ffermwyr eraill fewngofnodi o bell i roi cyngor dros y ffôn.

Beth ydych chi'n ei wneud ar ddiwedd y flwyddyn ar ôl i chi fesur am y tymor pori cyfan?

Oherwydd ein bod yn fuches sy'n lloea mewn bloc yn yr hydref, mae'r galw yn gynnar yn yr hydref yn eithaf isel. Rydym yn targedu'r cyfnod hwn i werthuso sut mae ein padogau wedi perfformio yn ystod y tymor a dynodi unrhyw rai sy'n dirywio.

Fe fyddem wedyn, fel arfer, yn ail-hadu er mwyn cael y padogau hynny i berfformio i'w potensial erbyn y gwanwyn.

Sut fydddech chi'n disgrifio tymor pori 2022 mewn ychydig frawddegau?

Fe wnaeth gychwyn mewn lle da, a wnaeth roi dechrau da i ni, ond roedd yn flaenoriaeth i ni droi allan yn gynnar er mwyn rheoli'r gorchudd trwchus yr oeddem wedi ei gario o'r flwyddyn ddiwethaf. Roedd yr haf yma'n her ynghyd â 25% o'r llwyfan allan o'r cylchdro. Ond rydym yn cael hafau sych i lawr yma, felly rydym yn barod ar ei gyfer i raddau. Roedd ansawdd y borfa yn amrywiol ar draws y fferm ac roedd ceisio dod o hyd i ddigon o gysgod i'r buchod ar ddyddiau poeth iawn yn her. Mae'r tyfiant yn yr hydref wedi bod yn wych ac mae angen i mi gadw llygad nad ydi'r gorchudd yn yr hydref yn rhy fawr yn mynd i'r gaeaf fel na fydd problemau pan gyrhaeddwn ni'r gwanwyn. Rwy'n amcangyfrif ein bod wedi tyfu 7tDM/ha eleni pan fyddem fel arfer yn tyfu 10tDM.

4.0 ADOLYGIAD TWF PORFA 2022

Bu 2022 yn flwyddyn heriol i lawer ar draws Cymru, gyda'r cyfnod sych estynedig trwy fisoedd yr haf. Ar ddechrau'r tymor pori gwelwyd cyfraddau tyfu porfa uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ffermydd blaeth, biff a defaid, gyda'r twf ar ei anterth yn gynnar ym mis Mai ar y rhan fwyaf o ffermydd.

Ar ôl y tyfiant mawr yn y gwanwyn gwelwyd diffyg lleithder ac felly, gostyngiad yn y cyfraddau tyfu porfa ar draws y rhan fwyaf o'r wlad. Y rhai ar yr arfordir ac yn y de a'r dwyrain yng Nghymru a ddiodeffodd waethaf o ddiffyg glaw, tra'r oedd ffermydd yng nghanolbarth Cymru gyda phriddoedd trymach yn cael un o'u blynyddoedd tyfu porfa gorau.

Bu'n rhaid i nifer o ffermydd a ddiodeffodd dywydd sych droi at roi porthiant ychwanegol i'r anifeiliaid gyda silwair a/neu wair gan fod cyfraddau twf y borfa ymhell dan y galw gan yr anifeiliaid. Roedd hyn yn golygu defnyddio porthiant oedd wedi cael ei wneud ar gyfer y gaeaf. Ochr y ochr â hyn, fe wnaeth y tywydd sych orfodi planhigion i fagu hadau yn gyflymach, oedd yn golygu bod cyfran o'r silwair a wnaed mewn ail a thrydydd doriadau o ansawdd salach a llai ohono.


Ar ôl i'r glaw gyrraedd, arhosodd y tymheredd yn uwch na'r cyfartaledd, gan ganiatáu tyfiant da o fis Medi i ddechrau Tachwedd. Mae hyn wedi helpu i adfer peth o'r porthiant a roddwyd yn yr haf, gan alluogi i silwair ychwanegol gael ei wneud a chynyddu'r borfa sydd ar gael i'w bori, gan o bosib olygu y bydd anifeiliaid yn mynd i mewn yn hwyrach. Ond, mae'r glaw trwm yn ystod mis Tachwedd wedi achosi i gyflwr y pridd ddirywio a gorfodi'r ffermwyr i droi rhai anifeiliaid i mewn.

4.1 DIFFYG PORTHANT POSIBL


Mae llawer o ffermydd sydd â chyfradd stocio uchel neu gymedrol wedi gorffen y tymor tyfu heb ddigon o borthiant ar y fferm ar gyfer y gaeaf. Oni bai ei fod yn cael ei reoli'n rhagweithiol, gall hyn gael effaith negyddol ar les anifeiliaid a lles ffermwyr, yn arbennig os bydd gwanwyn 2023 yn heriol (oer/gwlyb).



4.2 CROMLIN DWF PORFA




Ffigwr 2 – Cromlin Dwf Porfa ar gyfer biff, defaid a blaeth 2022




Ffigwr 3 – Twf porfa 2021 vs 2022 – Biff, defaid a blaeth


4.3 CROMLINAU TWF PORFA RHANBARTHOL




Ffigwr 4 – Twf porfa Rhanbarth 1 2022 – Biff, defaid a llaeth




Ffigwr 6 – Twf Porfa Rhanbarth 3 2022 – Biff, defaid a llaeth




Ffigwr 5 – Twf Porfa Rhanbarth 2 2022 – Biff, defaid a llaeth




Ffigwr 7 – Twf Porfa Rhanbarth 4 2022 – Biff, defaid a llaeth



Ffigwr 8 – Twf Porfa Rhanbarth 5 2022 – Biff, defaid a llaeth




Ffigwr 10 – Twf Porfa Rhanbarth 7 2022 – Biff, defaid a llaeth



Ffigwr 9 – Twf Porfa Rhanbarth 6 2022 – Biff, defaid a llaeth

*Nid oes unrhyw ffermwyr llaeth yn mesur yn y rhanbarth hwn.




Ffigwr 11 – Twf Porfa Rhanbarth 8 2022 – Biff, defaid a llaeth

4.4 CYFANSWM CYNHYRCHIANT PORFA

Mae'r graff isod yn dangos amcangyfrif y tunelli o ddeunydd sych (tDM/ha) a dyfwyd ar ffermydd llaeth a biff/ defaid trwy'r wyth rhanbarth sy'n rhan o Brosiect Porfa Cymru. Ar gyfartaledd, tyfodd ffermydd llaeth ar draws Cymru 10tDM/ha a thyfodd ffermydd biff a/neu ddefaid 6.8tDM/ha. Mae hyn yn debyg i ffigyrau 2021, ond, yn 2022 mae amrywiaeth mawr yn y cyfraddau tyfu porfa trwy wahanol ranbarthau Cymru, gyda rhai ranbarthau gyda hyd at 3tDM/ha yn is o gynhyrchiant na 2021, er enghraifft Rhanbarth 8.

Mewn rhai ranbarthau, mae potensial am ddiffyg porthiant gaeaf ar y ffermydd gan fod llawer o ffermydd wedi methu cael digon o silwair ac ansawdd digon da ar eu hail doriadau a gallant fod wedi gweld cynydu porthiant yn methu gan arwain at fwy o ddibyniaeth ar fwydydd wedi eu prynu i mewn.



Ffigwr 12 Tunelli o ddeunydd sych (tDM) a dyfwyd bob ha - Biff, defaid a llaeth

4.5 ANSAWDD Y BORFA


Mae un fferm biff a defaid ac un fferm laeth o bob rhanbarth (cyfanswm o 16) wedi bod yn casglu samplau o borfa ffres bob mis ar gyfer dadansoddiad NIR (Isgoch agos). Mae hyn wedi darparu'r data canlynol:

- Egni (MJME)
- Protein (%)
- Deunydd Sych (%)

Mae'r graff isod yn dangos sut mae ansawdd y borfa wedi amrywio trwy gydol y flwyddyn ar ffermydd llaeth a biff a/neu ddefaid. Mae canlyniadau cyfartalog 2022 mewn cymhariaeth â 2021 isod. Yn gyffredinol, arweiniodd y tywydd sych at borfa â mwy o ddeunydd sych ond llai o egni a phrotein. Adlewyrchwyd y gostyngiad hwn yn y safon mewn perfformiad gwaeth gan anifeiliaid (ond bodlonrwydd mawr) yn ystod y cyfnod sych yn yr haf.

	2022	2021	Gwahaniaeth
Egni metaboladwy (ME%)	11.6	11.8	-0.2
Protein (%)	21.1	22.1	-1.0
Deunydd sych (%)	20.6	19	+1.6

Tabl 1 - Ansawdd y Borfa 2021 vs 2022



Ffigwr 13 – Samplau Ansawdd Porfa Cyfartalog 2022

